Mae'r gyfres Darlithoedd Cyhoeddus ar Wyddoniaeth ym maes Iechyd yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd mawr o unigolion sydd â diddordeb. Cyflwynwyd cyfres 2020-21 yn ddigidol drwy Zoom, a llwyddwyd i ddenu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Mae tri phrif nod i'r darlithoedd – archwilio meysydd pryder ym maes gofal iechyd, cyflwyno gwaith ymchwil newydd ar faterion iechyd i'r cyhoedd ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr gwyddorau bywyd.

Mae'r darlithoedd, a gynhelir yn fisol ar nosweithiau lau o fis Hydref tan fis Mawrth, yn cael eu recordio ac maent ar gael ar [dudalennau gwefan Gwyddoniaeth ym maes Iechyd Prifysgol Caerdydd](#).



Cyrhaeddiad:

- Ymunodd rhwng 100 a 150 o aelodau'r cyhoedd, disgyblion ysgol uwchradd a gweithwyr proffesiynol â phob darlith ar-lein.

Effaith:

- Darparu gwybodaeth am iechyd y cyhoedd a gwaith ymchwil meddygol presennol, a chyfleodd i ymgysylltu ag arbenigwyr a gofyn cwestiynau
- Darparu safbwynt eang i ddisgyblion sy'n ystyried gyrfa mewn meysydd amrywiol o ofal iechyd a biofeddygaeth.

Dangosir disgrifyddion y darlithoedd yn y cwmwl geiriau hwn:



Ynghylch y gyfres o ddarlithoedd

Mae'r gyfres hynod o leydliannus hon o Ddarlithoedd Gwyddoniaeth mewn Iechyd Cyhoeddus bellach yn ei deunawfed flwyddyn, ac yn denu cynulleidfaoedd amrywiol o unigolion sydd â diddordeb ynysu, gan gynnwys y cyhoedd, disgyblion ysgol uwchradd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r darlithoedd **YN RHAD AC AM DDIM**.

Eleni bydd y darlithoedd yn cael eu cynnal yn fyw ar-lein drwy Zoom. Bydd manylion am sut i ymuno â phob darlith ar gael yn www.caerdydd.ac.uk/gwyddoniaethmewnlechydd. Bydd pob darlith yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w gweld o'r dudalen we uchod.

Rhaglen Ddarlithoedd

Sylwch fod y ddiwrnod yntaf yn digwydd ar dydd Llun a bydd darlithoedd sy'n weddill yn digwydd ar y sŵt nos law arferol.


Dyddiad	Siaradwr	Teitl
Dydd Llun 19 Hydref 7.00 pm	Dr Matt Morgan, Prifysgol Caerdydd	"Gofal dwys yn ystod COVID-19 - nosweithiau du gyda bygedyn o dda"
Dydd Iau 12 Tachwedd 7.00 pm	Dr John Holt, Canolfan Ymchwil Gofod, Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth, Prifysgol Caerdydd	"Daethom, gwelwom, aethom â samplau yn ôl i'r Ddaear"
Dydd Iau 3 Rhedyr 7.00 pm	Yr Athro Jon Blason, Prifysgol Caerdydd	"Iechyd Meddwl a Phandemig COVID-19"
Dydd Iau 14 Ionawr 7.00 pm	Yr Athro Syr Michael Marmot, Coleg Prifysgol Llundain	"Cyflwnder cymdeithasol, ecwiti iechyd a COVID-19"
Dydd Iau 25 Chwefror 7.00 pm	Dr Anna Dixon, Canolfan Heneldio'n Well, Llundain	"Heneldio'n iach ar adeg COVID-19: sut gallwn ni greu cymdeithas lle rydym ni i gyd yn heneldio'n well?"
Mis Mawrth (dyddiad i'w goddefnau)	Yr Athro Claudia Hammond, Prifysgol Sussex a darlithwr ac awdur arloyn	"Gorffwys yn oes COVID-19"

Am ymholiadau neu ragor o wybodaeth: medicengagement@caerdydd.ac.uk
@CUmedicengage


Ymunodd y rhai a oedd yn bresennol o:



Y rheswm dros fod yn bresennol oedd:



O ganlyniad i fod yn bresennol, roedden:




Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd – Her Gwyddorau Bywyd

Mae'r Her Gwyddorau Bywyd yn gystadleuaeth cwis cenedlaethol rhwng ysgolion a ddarperir yn y Gymraeg a Saesneg, ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10/11. Bob blwyddyn, caiff cwis newydd ei ddylunio a'i ddarparu gan fyfyrwyr PhD, ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a staff.

Mae'r digwyddiad yn rhoi cyfle i ddisgyblion gwrrdd â gwyddonwyr ifanc sy'n gweithio'n lleol, ac mae'n profi gallu disgyblion i ddadansoddi data a defnyddio rhesymeg a gwybodaeth a ddysgwyd i ddelio â chysyniadau anghyfarwydd, i'w helpu i ddeall y byd byw.



Cynhaliwyd y rownd ragarweiniol ar-lein ym mis Chwefror 2020. Oherwydd effaith y pandemig ar ysgolion, cynhaliwyd y rownd gogynderfynol, y rownd gynderfynol a'r rownd derfynol Saesneg yn nhymor yr hydref 2020. Cynhaliwyd y rownd derfynol Gymraeg ym mis Mehefin 2021.



Cyrhaeddiad:

- Daeth 218 o dimau (872 disgybl) o 67 ysgol o bob cwr o Gymru i'r cwis ar-lein.

Effaith:

- Codi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli disgyblion i ystyried posibiladau gyrfaedd mewn gwyddoniaeth a meddygaeth
- Cynyddu dealltwriaeth o rôl gwyddoniaeth ym maes iechyd
- Hwrwyddo gwaith ac ymchwil y Brifysgol yn y disgyblaethau gwyddoniaeth a gofal iechyd
- Disgyblion ysgol yn rhwydweithio gydag ysgolion eraill
- Cydnabod ac yn gwobrwyo cyflawniad mewn mathemateg a gwyddoniaeth



Ysgol y Gadeirlan yng Nghaerdydd oedd enillwyr y cwis Saesneg yn 2020.

Meddai'r athro Andrew Vaughan:

"Dyweddodd pawb ar y tîm pa mor wych oedd y cwis a faint roedd wedi eu hysbrydoli; o ganlyniad, dywedodd un aelod o'r tîm ei fod bellach yn bendant yn ystyried dilyn gyrfa ym maes Gwyddorau Bywyd – sy'n wych! Roedd cystadleuaeth eleni'n dda iawn, a dw i'n meddwl bod y fformat ar-lein wedi gweithio'n dda ar ôl i'r problemau technoleg gael eu datrys. Ro'n i wrth fy modd gyda'r ystod o rowndiau unwaith eto, a'r gwaith meddwl amlwg oedd y tu cefn iddyn nhw. Roedd lefel anhawster y cwestiynau'n berffaith. Diolch yn fawr am drefnu popeth a diolch i'r tîm cyfan am yr amser a'r ymdrech wrth baratoi a gweinyddu'r cwis – cafodd ei werthfawrogi'n fawr, a dw i mor falch ei fod bellach yn cael y gydnabyddiaeth yn genedlaethol mae'n ei haeddu!"

Ysgrifennodd Sarah Kaneen, aelod o'r tîm buddugol:

"Am y tro cyntaf ers i Ysgol y Gadeirlan ddechrau cystadlu yn yr Her ac ar ôl cyrraedd y rownd derfynol ar sawl achlysur, llwyddon ni o'r diwedd i ennill y gystadleuaeth fawreddog hon, gan guro Ysgol Gyfun Porthcawl ar bwyntiau mewn rownd derfynol agos. Roedd pob rownd yn cynnwys cwestiynau dirdynol, o'r math lle mae angen cadw bys ar y botwm, ynghyd ag adrannau hirach lle roedd angen deall y cynnwys a dehongli gwybodaeth. Hefyd roedd dingbats, cwestiynau cyfrifo, a ffefryn pawb: rownd y caneuon (lle roedd yn rhaid i ni sillafu enw'r artist gan ddefnyddio elfennau o'r tabl cyfnodol!)." Roedd yn gyfle gwych i bob un ohonon ni, gan fod gennym ni i gyd ddiddordeb arbennig yn y gwyddorau; cawson ni i gyd ein hysbrydoli a dysgu llawer iawn."



Ysgol Tryfan oedd enillwyr y cwis Cymraeg, gan gadw eu teitl buddugol o gystadleuaeth 2019.

Meddai'r athrawes Nia Jones:

"Diolch unwaith eto, yn enwedig am barhau â'r gystadleuaeth er gwaetha'r holl gymhlethdodau eleni, mae llawer o gystadlaethau eraill wedi'u canslo. Mae faint o waith paratoi sy'n cael ei wneud ar gyfer y cwis yn anhygoel, o ran y trefnu ac ansawdd y cwestiynau. Dw i wedi bod i nifer ohonyn nhw erbyn hyn, ac mae pob un wedi bod yn unigryw. Mae'r disgyblion wir yn mwynhau ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad bob tro."

Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd yn Fyw Ar-lein

Mae Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd yn Fyw! yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion blwyddyn 12 ddysgu rhagor am y darganfyddiadau gwyddoniaeth diweddaraf a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n digwydd yn yr Ysgol Meddygaeth, a sut maen nhw'n cael effaith wirioneddol ar ymarfer meddygol a chlinigol ledled y byd. Mae'r digwyddiad unigryw hwn hefyd yn dangos yr ystod eang o yrfaedd sydd ar gael ym maes gwyddoniaeth ac iechyd ac yn ysbrydoli ei fynychwyr i ystyried dilyn llwybr gyrfa yn y meysydd hynny.

Cynhaliwyd digwyddiad 2021 yn rhithwir, gan gynnig cyfuniad o 25 o adnoddau wedi'u recordio ymlaen llaw a phedair sesiwn fyw ar-lein dros ddau ddiwrnod ym mis Mawrth 2021. Cofrestrodd 464 o ddisgyblion i dderbyn y rhaglen ryngweithiol gyda dolenni i'r holl adnoddau. Roedd presenoldeb yn y sesiynau byw yn amrywio o 80 i dros 200.

Roedd y cyfleoedd a gynigiwyd i gyfranogwyr yn cynnwys:

- Cwrdd ag ystod o'n hymchwilyr a'n darlithwyr.
- Cymryd rhan yn ein sesiwn 'Dyfalw'r Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol' i ddod i ddeall rhai o'r ystod eang o yrfaedd sydd ar gael.
- Gofyn cwestiynau i'n panel o wyddonwyr sy'n gweithio ar COVID-19.
- Gweld y tu mewn i rai o'n labordai a chlywed am yr ymchwil ddiweddaraf sy'n digwydd.
- Holi panel o arbenigwyr (gan gynnwys israddedigion meddygol, myfyrwyr PhD, Ymchwilyr ar Ddechrau eu Gyrfya, staff Derbyn Myfyrwyr).
- Cymryd rhan mewn cwis gwyddoniaeth ar-lein gyda gwobrau taleb.

Cyrhaeddiad:

- Dros 400 o ddisgyblion o 92 o ysgolion Cymru
- 36 o ddisgyblion o 17 o ysgolion eraill yn y DU

Effaith:

- Nododd 76% eu bod yn fwy tebygol o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ar ôl mynychu'r digwyddiad
- Cytunodd 70% yn gryf fod y digwyddiad wedi eu hysbrydoli tuag at yrfa mewn gwyddoniaeth ym maes iechyd
- Roedd 95% yn teimlo bod y digwyddiad wedi eu helpu i hyrwyddo eu nodau gyrfa i'r dyfodol
- Roedd 69% yn credu y byddai cymryd rhan yn y sesiynau byw yn eu helpu i gwblhau eu ceisiadau UCAS



Ysgrifennodd Martin Blamey, un o'r rhai a oedd yn bresennol ac athro yn Ysgol Gyfun y Bont-faen:

"Hoffwn ddiolch o galon i chi a'r holl dîm a drefnodd raglen mor wych eleni. Mae'n amlwg bod llawer iawn o ymdrech wedi'i gwneud ac ystyriaeth wedi'i rhoi wrth gynllunio a threfnu'r digwyddiad eleni, gan ei fod wedi cynnwys cyflwyniadau, trafodaethau, fideos, teithiau rhithwir, cwisiau a mwy. Gallwch fod yn sicr bod y digwyddiad wedi bod mor werthfawr i ddisgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen. O ystyried amrywiaeth y gweithgareddau a'r cyfranwyr, rwy'n credu y gwnaeth ragori ar y digwyddiadau 'Byw', y byddwch yn gwybod fy mod wedi mynd iddynt yn y gorffennol!!"

Ar ran yr ysgol a'n holl ddisgyblion unwaith eto, diolch yn fawr iawn. Rydym yn teimlo'n ffodus iawn am gael y cyfle hwn."

Ar ôl mynd i'r digwyddiad Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd Byw, dywedodd y disgyblion y byddent yn gwneud y canlynol:

"Ystyried yr hyn a ddysgwyr gennyf"

"Gwneud mwy o ymchwil i yrfaedd ym maes iechyd"

"Ystyried y pynciau a drafodwyd a sut maent wedi cynyddu fy hyder i ddewis gyrfa ym maes meddygaeth yn y dyfodol a dewis Prifysgol Caerdydd yn gyntaf wrth wneud cais"

"Ystyried fy natganiad personol ar ôl y sesiwn hon"

"Astudio'n galed er mwyn gallu cyrraedd fy nodau a dechrau ar fy ngyrfa ddefnyddol"

Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd – Rhaglen Profiad Gwaith Rhithwir

Dechreuwyd y cynllun profiad gwaith labordy ar gyfer disgyblion chweched dosbarth ar raddfa fach yn 2010. Mae'r cynllun wedi tyfu dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae'n ddigwyddiad llawer mwy, gan groesawu hyd at 60 o ddisgyblion dros gyfnod o bedair wythnos bob mis Mehefin a mis Gorffennaf. Yn anffodus, cafodd rhaglen 2020 ei chanslo oherwydd cyfyngiadau Covid-19, felly penderfynwyd creu cynllun profiad gwaith "rhithwir" ar gyfer 2021.

Cafwyd ychydig o dan 60 o geisiadau a chynigiwyd lle i bob un ohonynt. Derbyniodd 45 y cynnig, a chynhaliwyd y cynllun am wythnos ddiwedd mis Mehefin.

Cyn i'r rhaglen ddechrau, gwahoddwyd ymchwilwyr o'r Ysgol Meddygaeth i gymryd rhan yn y gwaith o ffilmio arbrofion yn eu labordai. Gwirfoddolodd tri grŵp ac ymwelodd cwmni ffilmio proffesiynol â'r labordai i'w ffilmio wrth eu gwaith, a chyfweld â myfyrwyr PhD a staff am eu hymchwil.

Roedd y rhaglen yn cynnwys:

- Sesiwn groeso a chwis ar-lein i amlygu'r pethau annisgwyl a'r heriau sydd i'w cael mewn ymchwil fiofeddygol.
- Sgyrsiau am y defnydd o anifeiliaid mewn gwaith ymchwil, gan gynnwys y ddeddfwriaeth a'r amodau hwsmonaeth sy'n gysylltiedig â bywddyraniad.
- Ffilmiau wedi'u recordio ymlaen llaw i'w gwyllo, ac yna sesiwn holi ac ateb ar-lein fyw gyda'r ymchwilydd/ymchwilwyr a gymerodd ran ym mhob ffilm i'w holi am eu hymchwil, eu hastudiaethau a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Sesiwn Holi'r Panel gyda myfyrwyr meddygol a PhD, lle gallai cyfranogwyr holi panelwyr ynghylch gwneud cais i'r brifysgol, ysgrifennu datganiadau personol, ymdrin â chyfweliadau, bywyd fel myfyriwr, astudio yng Nghaerdydd.

Cyrhaeddiad:

45 o ddisgyblion o:

- 23 o ysgolion/collegau Cymru
- 8 o ysgolion/collegau Lloegr
- 2 o golegau Gogledd Iwerddon

Effaith:

Nod y cynllun profiad gwaith o'r dechrau yw trochi'r disgyblion ym myd ymchwil a meddygaeth, drwy dreulio amser mewn labordai a siarad â staff a myfyrwyr ar draws yr Ysgol Meddygaeth. Rhoddodd rhaglen yr wythnos flas i'r cyfranogwyr o'r hyn sy'n digwydd mewn labordai ac ymchwil "bywyd go iawn" a chynigiodd gyfle i ofyn cwestiynau i staff a myfyrwyr ar wahanol gamau o'u gyrfaedd.

O'r disgyblion a gymerodd ran yn yr arolwg adborth:

- Dywedodd 62% eu bod yn fwy tebygol o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen.
- Cytunodd 69% yn gryf fod y rhaglen wedi eu hysbrydoli i ystyried gyrfa gwyddoniaeth ym maes iechyd.
- Roedd 100% yn teimlo bod y rhaglen wedi eu helpu i ymestyn eu nodau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol.
- Roedd 100% o'r farn y byddai eu profiadau yn ystod yr wythnos yn eu helpu i lunio eu cais UCAS.



Pan ofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol beth y gwnaethant ei fwynhau'n arbennig wrth gymryd rhan yn y rhaglen, eu sylwadau oedd:

"Cael gwybod am ymchwil ar anifeiliaid"

"Cael cipolwg ar wahanol elfennau meddygaeth"

"Y ffaith bod pawb mor garedig a theimlo'n angerddol am yr hyn y maent yn ei wneud – mae'n ysbrydoledig."

"Y manylder wrth esbonio rhai o'r cysyniadau gwyddonol."

"Cael gwybod am fywyd myfyrwyr a'r hyn y mae myfyrwyr PhD yn ei wneud."

"Y ffaith bod agwedd y bobl y tu ôl i'r prosiect tuag at ddyfodol gwyddoniaeth mor gadarnhaol!"

Llysgenhadon MEDIC

Yn 2017-18, lansiodd yr Ysgol Meddygaeth gynllun Llysgenhadon MEDIC, gyda dau brif ddioben:

- Ehangu'r gwaith ymgysylltu ag ysgolion a chymunedau Cymru gan roi cymorth a mentora ychwanegol i ddisgyblion ac athrawon, mireinio'r cwricwlwm a chodi dyheadau o safbwynt yr Ysgol Meddygaeth
- Gwella medrau mentora, addysgeg, cyfathrebu a chyflogadwyedd ymhlith staff a myfyrwyr.

Yn 2021, mae dros 150 o fyfyrwyr o'r holl flynyddoedd astudio wedi'u cofrestru'n Llysgenhadon MEDIC.

Cyrhaeddiad:

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021, roedd y cyfranogiad fel a ganlyn:

Ysgolion uwchradd a cholegau

- Sesiwn fyw ar-lein Holi'r Panel – Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd yn Fyw
- Sesiwn fyw ar-lein Holi'r Panel – Profiad Gwaith Rhithwir Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd

Ysgolion cynradd

- Ysbrydoli'r Dyfodol, Ysgol Gynradd Tredegarville (60 o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6)
- Cynhyrchu fideo Gweithdy Corff Dynol i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru
- [Gweithdy corff dynol – Astudio – Prifysgol Caerdydd](#)

Mae 8 o Lysgenhadon MEDIC wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau uchod (rhai ar sawl achlysur).

Effaith:

Yr effeithiau ar staff, cyn-fyfyrwyr a myfyrwyr y brifysgol yw:

- Meithrin medrau cyflogadwyedd
- Mireinio medrau cyfathrebu
- Hybu'r Cwricwlwm Gwladol
- Ysbrydoli gwyddonwyr, meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y dyfodol
- Hwyluso strategaethau denu myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
- Meithrin cysylltiadau ag ysgolion, gan gynnig gweithgareddau dysgu diddorol ac ysgogol.

Mae'r effeithiau ar ysgolion ac athrawon yn cynnwys:

- Cymorth ynghylch cyflwyno'r cwricwlwm
- Dysgu gwell wedi'i ategu gan enghreifftiau o 'ysgol profiad'
- Ysbrydoli athrawon a disgyblion a chodi dyheadau gyrfaol
- Partneriaeth hirdymor ag Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd

Meddai Kestra Dawson, Llysgennad MEDIC, a gyd-gyflwynodd y sgwrs ag Ysgol Gynradd Tredegarville gyda'i chyd-fyfyrwr Georgia Mills:

“Dechreuais drwy gyflwyno fy hunan a gofyn cwestiynau am yr hyn mae meddygon yn ei wneud, ble gallech ddod o hyd iddyn nhw, gyda phwy maen nhw'n gweithio a pha offer maen nhw'n ei ddefnyddio. Yna, fe ddangosais rywffaint o'r offer iddyn nhw – stethosgop, peiriant BP, rhwymynnau – a gofyn ar gyfer beth rydyn ni'n eu defnyddio. Gofynnais pa organau sydd gennym ni a dangos rhai modelau iddyn nhw.

Yna, fe siaradon ni am y coronafeirws: Dangosais sbyngau fel ysgyfaint, pelydr-x o'r frest a sgerbwd. Yna buon ni'n trafod beth yw PPE, fe wisgais i fy sgrymbiau clinigol, ffedog, menig a mwgwd (ro'n i wedi dod â nhw o'r gwaith yng nghanolfan brofi Rodney Parade). Buon ni'n siarad am yr hyn sy'n digwydd yn y ganolfan brofi (gan ddangos y ffon gwlan cotwm) ac yn ateb cwestiynau/pryderon ac ati.

Yn olaf, bues i'n ateb eu cwestiynau. Cafwyd rhai cwestiynau deallus iawn am fod yn feddyg a choronafeirws yn gyffredinol. Do'n i ddim yn gwybod yr atebion i rai o'u cwestiynau, er enghraifft 'faint o bobl yn y byd sydd wedi cael coronafeirws', gan nad oedd hyn yn rhywbeth ro'n i wedi'i ddisgwyl!

Ond ar y cyfan, roedd yn gweithio'n dda iawn. Roedd yr athrawon yn hyfryd ac yn cynorthwyo (dewis disgyblion i ateb fy nghwestiynau) ac roedd y plant yn ymddwyn yn dda iawn, yn gwrando'n astud ac yn cymryd rhan.”

Rhoddodd Yvonne Jones, athrawes o Ysgol Tredegarville yr adborth canlynol:

“Oherwydd COVID, cynhaliwyd y sesiwn yn llwyddiannus iawn ar Microsoft Teams, ond yn amlwg byddai wedi bod yn well cwrdd â'r myfyrwyr wyneb yn wyneb. Roedd y plant wedi mwynhau sgwrsio ag ymwelydd iau yn fawr iawn. Roedden nhw'n mwynhau gofyn cwestiynau, edrych ar y stethosgop a dysgu am rannau o'r corff.

Roedd y myfyrwyr meddygol wedi paratoi'n dda iawn, roedd ganddyn nhw syniadau hyfryd am beth i'w ddweud ac roedd ganddyn nhw naws berffaith ar gyfer siarad â phlant o'r oedran hwn. Diolch i'r ddau ohonyn nhw.”

Cynllun Mentora Ehangu Mynediad i Feddygaeth (WAMMS)

Cynllun mentora meddygol a arweinir gan fyfyrwyr yw WAMMS, a gynlluniwyd i godi dyheadau disgyblion ysgolion gwladol Cymru i astudio Meddygaeth, cynorthwyo'r disgyblion hyn gyda'r broses ymgeisio, a chynyddu nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Maent yn cynnal sesiynau sy'n amrywio o 'beth yw meddygaeth?' i wahanol agweddau ar geisiadau UCAS. Fe gynhalion nhw ein ffug gyfweiliadau cyntaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd, ochr yn ochr â threfnu Cynhadledd Ymgeiswyr Meddygaeth Genedlaethol gyntaf Cymru ym mis Mehefin 2021.

Mae gan WAMMS dudalennau cyfryngau cymdeithasol ar Twitter, Instagram a Facebook, lle maent yn postio cynnwys dyddiol sy'n ymdrin â'r gwahanol agweddau ar wneud cais i'r Ysgol Meddygaeth, ochr yn ochr â cheisio ysbrydoli gyrfaoedd mewn meddygaeth, drwy eu cyfres gyrfaoedd, a hefyd gyrfaoedd yng Nghymru, drwy eu cyfres Cymru bob dydd Mercher.

Cyrhaeddiad:

- Ymgysylltwyd â 43 o ysgolion:
 - Cafodd 23 o ysgolion ymweliadau ysgol unigol.
 - Cymerodd 9 ysgol ran yn y panel a'r gyfres o gyfweiliadau byrion (MMI).
 - Cymerodd 11 o ysgolion ran yn y ffug gyfweiliadau a chael ymweliadau ysgol unigol.
- Trefnwyd 55 o sesiynau – 52 o sesiynau ysgol unigol, 3 ffug gyfweiliad (1 panel, 2 MMI).
- Presenoldeb mewn cynadledau:
 - Diwrnod 1: 208 wedi cofrestru
 - Diwrnod 2: 138 wedi cofrestru

Effaith:


- Sicrhau bod myfyrwyr meddygaeth israddedig yn fwy gweladwy mewn ysgolion ledled Cymru
- Cydnabod gwerth cymorth a mentora cymheiriaid i ddisgyblion yng Nghymru sy'n ystyried meddygaeth
- Cyfle i fyfyrwyr meddygaeth israddedig ddatblygu eu sgiliau ymgysylltu â chyfathrebu
- Cefnogi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y disgyblion sy'n byw yng Nghymru sy'n gwneud cais i astudio meddygaeth


WAMMS

Cyfryngau cymdeithasol

160 negeseuon

 346 dilynwyr

 333 dilynwyr

 270 dilynwyr



Map o'r ysgolion a ymgysylltwyd â nhw yn 2020-21

Roedd yr adborth gan ysgolion yn cynnwys y canlynol:

“Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, helpodd WAMMS bedwar o'n disgyblion Blwyddyn 13 i gael llefydd mewn ysgolion meddygaeth, tri yng Nghaerdydd ac un yng Nghaerwysg. Heb os, roedd y gweithdai a'r cyngor a ddarparwyd gan WAMMS (yn enwedig yn gweithdy MMI rhithwir) yn allweddol i'w helpu i gyflawni eu nod o astudio meddygaeth.”

“Does dim amheuaeth yn fy meddwl bod WAMMS yn darparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar ddisgyblion Blwyddyn 13 er mwyn llywio'r broses ymgeisio hynod gystadleuol. Mae cael cyngor ystyrlon gan fyfyrwyr meddygaeth presennol yn rhoi hwb i'w hyder a hefyd yn helpu i leddfu eu hofnau ynghylch proses UCAS.”

“Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi eto eleni, ac os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i helpu'r cynllun, cofiwch gysylltu â ni.”

“Roeddwn i am anfon e-bost atoch i ddweud diolch am y gefnogaeth a roddoch i ddau o'n disgyblion y llynedd, ac mae'r ddau'n dechrau mewn ysgolion meddygaeth. Roedd y gefnogaeth a gawsant yn wych. Mae gennyf un neu ddau o ddisgyblion ym Mlwyddyn 13 sy'n bwriadu gwneud cais i astudio meddygaeth a rhywfaint o ddiddordeb ym Mlwyddyn 12 hefyd. Byddai'n wych gweithio gyda chi unwaith eto eleni.”


Cymdeithas MediCan

Cymdeithas arloesol yw MediCan, â'i bwriad yw dod â chyfleoedd meddygol i'r gymuned leol. Byddant yn gweithio gydag ysgolion gwladol yn yr ardal i gynorthwyo disgyblion ifanc ac uchelgeisiol i fynd i ysgolion meddygaeth. Mae bwlch eang a diangen mewn ymgeiswyr meddygaeth a myfyrwyr rhwng ysgolion gwladol a chyhoeddus, felly maen nhw'n gobeithio cefnogi newid iach drwy ddarparu sgiliau allweddol.

Yn y flwyddyn academaidd hon mae'r Gymdeithas wedi cynnal y gweithgareddau canlynol:

- Ffug Gyfweiliadau MMI – a gynhaliwyd drwy Zoom gyda disgyblion meddygaeth yn asesu myfyrwyr ac yn rhoi adborth.

- Dosbarth Meistr Ceisiadau am Gyrsiau Meddygaeth – Gweminar Zoom rhwng 9am a 4pm yn ymdrin â phob agwedd ar y broses ymgeisio am gyrsiau meddygaeth.



- Cynllun Mentora – Sgyrsiau grŵp WhatsApp a wnaed ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 gyda mentoriaid myfyrwyr meddygaeth penodedig a oedd yno i helpu ac arwain disgyblion blwyddyn 12 gyda'u cais meddygaeth.

Cyrhaeddiad:

Daeth disgyblion o bum ysgol i'r digwyddiadau:

- Ffug Gyfweiliadau MMI: 50-60
- Dosbarth Meistr Ceisiadau am Gyrsiau Meddygaeth: 40
- Cynllun Mentora: 18

Effaith:

Llwyddodd yr holl weithgareddau i gael effaith gadarnhaol ar y disgyblion gan eu bod yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i fynd drwy'r broses derbyn ar gyfer cyrsiau meddygaeth drwy'r dosbarth

meistr. Roedd y ffug gyfweiliadau MMI hefyd yn gyfle i'r disgyblion gymhwyso'r wybodaeth hon a chael teimlad o sut mae cyfweiliadau'n cael eu cynnal, ac roedd y cynllun mentora yn galluogi'r disgyblion i gael cymorth a chefnogaeth un i un gan fyfyrwyr meddygaeth presennol. Sefydlwyd hwn ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 y llynedd ond mae'n dal i gael ei ddefnyddio ganddynt gan eu bod yn mynd drwy'r cylch ymgeisio eleni ac mae'n ymddangos ei fod yn ddefnyddiol iawn iddynt.

Roedd yr adborth gan ddisgyblion yn cynnwys:

“Roedd trafod pob manylyn bach yn ddefnyddiol iawn yn enwedig y ffug gyfweiliadau. Dw i'n meddwl eich bod chi'n wych. Diolch yn fawr iawn!”

“Yn llawn gwybodaeth a defnyddiol iawn.”

“Ro'n i'n hoffi pa mor ddiddorol oedd yr holl gyflwyniadau ac rwy'n credu ei fod wedi rhoi cipolwg da iawn ar fywyd fel myfyriwr meddygaeth ac wedi ein dysgu sut i wneud cais yn dda.”

“Cafodd pob rhan o'r broses ymgeisio ei thrafod yn fanwl gydag enghreifftiau da.”

“Efallai nad sesiynau hir, ond yn hytrach byddai sesiynau byrrach ond amlach yn dda. Roedd yn ddefnyddiol iawn serch hynny, diolch.”

Rhwydwaith Geneteg ar gyfer Athrawon Parc Geneteg Cymru

Sefydlwyd y Rhwydwaith Geneteg ar gyfer Athrawon yn 2006. Mae wedi'i anelu at athrawon bioleg sy'n dymuno cael y wybodaeth ddiweddaraf am geneteg a genomeg, a gwahoddir ysgolion a cholegau ledled Cymru (a siroedd ffiniol yn Lloegr) i ymuno â'r rhwydwaith am ddim.

Mae aelodau'r rhwydwaith yn derbyn cylchlythyr bob tymor sy'n cynnwys erthyglau ar eneteg gyfredol a materion yn ymwneud â genomeg, ynghyd â gwybodaeth am wefannau perthnasol, adnoddau addysgol a digwyddiadau sydd ar ddod. Anogir aelodau i anfon erthyglau ac adborth gyda sylwadau a cheisiadau am rifynnau yn y dyfodol.


Trwy'r Rhwydwaith Geneteg ar gyfer Athrawon, mae Parc Geneteg Cymru hefyd yn hwyluso cyfleoedd perthnasol eraill i ysgolion a cholegau, fel cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau lle mae sefydliadau (e.e. Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg) yn gofyn am adborth neu farn ar faterion genetig/genomig sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth neu iechyd.

Cyrhaeddiad:

- Ar hyn o bryd mae dros 400 o athrawon gwyddoniaeth a/neu fioleg yn aelodau o'r rhwydwaith.

Effaith:

- Presenoldeb mewn digwyddiadau a hysbysebwr drwy'r cylchlythyr (e.e. Cynhadledd Chweched Dosbarth, Sioe Deithiol Ysgolion, DPP Geneteg Athrawon) – gall y rhain fod yn ddigwyddiadau Parc Geneteg Cymru neu'n rhai a drefnir gan eraill (e.e. Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd Yn Fyw).
- Cydweithio ag ysgolion (e.e. ar brosiectau peilot).
- Cyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn ymatebion ymgynghoriadau.



Adborth/gwerthusiad:

- Adborth anffurfiol gan aelodau'r rhwydwaith ar gynnwys cylchlythyrau; digwyddiadau; gweithgareddau ymgysylltu.
- Metrigau cofrestru â'r rhwydwaith ar gyfer ysgolion ac athrawon.

Ystyried gwneud cais i astudio Meddygaeth? Adnoddau i Ddarpar Fyfyrrwyr

Dr Rhiannedd Tudor Jones, Dr Sue Emerson, Vicki Roylance, y Ganolfan Addysg Feddygol



Creodd aelodau o staff o'r Ganolfan Addysg Feddygol ganllaw dwyieithog cynhwysfawr yn darparu arweiniad, awgrymiadau a dolenni i adnoddau a gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr mewn ysgolion meddygaeth.

Bwriad hyn oedd cefnogi a chryfhau ceisiadau disgyblion, yn enwedig gan y gallai cael mynediad at brofiad

gwaith ac arweiniad drwy ysgolion a cholegau fod yn anoddach dros gyfnod y pandemig. Mae wedi cael ei ddsbarthu a'i ddefnyddio'n eang gan ddarpar fyfyrwyr ledled Cymru a gweddill y DU.

Cyrhaeddiad:

- Cyfranogwyr Rhwydwaith Seren sy'n targedu meddygaeth.
- Cyfranogwyr Ysgol Haf Ymddiriedolaeth Sutton Meddygaeth Caerdydd.
- Ymgeiswyr sy'n cyflwyno ymholiadau i dîm derbyniadau meddyginiaeth Caerdydd ynghylch profiad gwaith/datganiadau personol.
- Cyfranogwyr Doctoriaid Yfory (110).
- Cedwir ar wefan Prifysgol Caerdydd, felly mae ar gael i unrhyw ddarpar ymgeiswyr.
- Wedi'i ddefnyddio gan gydweithwyr ym Mhrifysgol Abertawe – profiad gwaith, myfyrwyr yn cael eu mentora o dan gynllun Cronfa Mullany a rhaglen y Coleg Cymraeg (tua 40 o fyfyrwyr).

- Cyfranogwyr gweithgareddau allgymorth Coleg Brenhinol Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (>400).
- Dosbarthwyd i bob ysgol uwchradd yng Nghymru i'w ddefnyddio gan eu disgyblion/timau gyrfaedd ac i ysgolion a cholegau ledled y DU gan Dîm Cyswllt Ysgolion Prifysgol Caerdydd.
- WAMMS Caerdydd i'w ddefnyddio yn eu gweithgareddau.

Effaith:

- Cefnogi darpar ymgeiswyr i wneud cais cryf ar gyfer cwrs meddygaeth.
- Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad at ganllawiau a chyfeirio at adnoddau.
- Cynyddu hyder ymhlith darpar ymgeiswyr tra bod mynediad at brofiadau gwaith a gwirfoddoli wedi gorfod cael ei gyfyngu.
- Creu argraff gadarnhaol ymhlith darpar ymgeiswyr bod Ysgol Meddygaeth Caerdydd yn amgylchedd cefnogol a chynhwysol.
- Ar gael yn barhaol ar wefannau Prifysgol Caerdydd fel y gall grwpiau neu unigolion gael mynediad/rhannu'r ddolen yn hawdd a fydd wedyn yn mynd â nhw'n uniongyrchol i'r fersiwn ddiweddaraf wrth iddo gael ei adolygu a'i addasu'n flynyddol.

Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr yn cynnwys:


“Gwych!”

“Does dim byd arall tebyg i hyn.”

“Adnodd ardderchog i ddarpar fyfyrwyr.”

Cyflwyniad Rhithwir ar Glefyd Cardiofasgwlaidd

Rhoddodd yr Athro Marcus Coffey, Athro mewn Addysg Feddygol (Ffarmacolegydd/Biocemegydd), gyflwyniad rhithwir ar Glefyd Cardiofasgwlaidd i ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun y Bont-faen.



Cyrhaeddiad:

- Deg disgybl chweched dosbarth, Ysgol Gyfun y Bont-faen

Effaith:

- Yn y sesiwn 90 munud, rhoddwyd cyfle i ddisgyblion ofyn eu cwestiynau am y pwnc i'r Athro Coffey.

Adborth/gwerthusiad:

Ysgrifennodd yr athro Martin Blamey:

“Roeddwn i'n ddiolchgar iawn i'r Athro Coffey am roi o'i amser i gynnig cyflwyniad diddorol! Roedd yn ymddangos yn arbennig o awyddus i gynnig ei gefnogaeth. Dywedodd ei fod wedi cael ei addysgu mewn ysgol gyfun 'gyffredin' yng Nghernyw lle nad oedd llawer o gyfleoedd o'r math roedd ein disgyblion yn y Bont-faen yn gallu elwa ohono erbyn hyn!

“Ond gallaf ddweud bod ei gyflwyniad yn arbennig o fanteisiol i un o'n disgyblion, Hannah. Roedd hi wedi penderfynu (o'i gwirfodd) cyflwyno traethawd ar glefyd cardiofasgwlaidd fel rhan o raglen allgymorth ar gyfer disgyblion ysgol a drefnwyd gan Goleg Gonville a Caius, Prifysgol Caergrawnt, gyda'r nod o'u helpu i “ddatblygu eu diddordebau uwchgwricwlaidd”. Pwnc ei thraethawd oedd “A fydd mwy nag 1 o bob 3 o bobl yn marw o glefyd cardiofasgwlaidd yn y 50 mlynedd nesaf?”

Rwy'n falch iawn o ddweud bod cyflwyniad Hannah wedi arwain at wahoddiad iddi ymweld â'r Coleg! Pan fyddwch chi'n ystyried pwy arall a allai fod wedi cymryd rhan, mae hwn yn ganlyniad clodwiw iawn! Y peth diddorol yw nad oedd hi wedi meddwl am wneud cais i Gaergrawnt cyn hynny! Dim ond ymarfer academaidd diddorol oedd e iddi hi!”

Gweithgaredd Ymgysylltu ag Ysgolion Cynradd Rhithwir – Esgyrn ac Organau

Cynhyrchodd Dr Daniel Smith yn yr Is-adran Haint ac Imiwnedd weithgaredd ar-lein ar esgyrn ac organau, a oedd yn rhan o bortffolio CITER ar gyfer Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd yn 2020. Roedd y fideo ar gael i'w weld i unrhyw un a ymwelodd â gwefan Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd.



Cyrhaeddiad:

- 77 o bobl yn gwyllo'r fideo drwy wefan Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd

Effaith:

- O ganlyniad i lwyddiant y fideo ar gyfer Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd, mae bellach wedi'i ychwanegu fel gweithgaredd rhithwir i wefan Prifysgol y Plant, lle gall ysgolion gael mynediad at weithgareddau yr hoffent i ddisgyblion gymryd rhan ynddynt.

Adborth/gwerthusiad:

Dywedodd trefnwyr Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd eu bod wedi cael adborth cadarnhaol iawn am y fideo "hwyllog, rhyngweithiol ac addysgiadol".



Map o Weithgarwch Ymgysylltu ag Ysgolion ar draws Cymru 2020-21

Enw'r Ysgol	Awdurdod Lleol	Sector	SiHL	WE	LSC	HGB	MA	WAMMS	MediCan	MC
Ysgol Uwchradd Caerdybi	Ynys Môn	Uwchradd				X				
Ysgol David Hughes	Ynys Môn	Uwchradd	X							
Ysgol Syr Thomas Jones	Ynys Môn	Uwchradd	X							
Ysgol Gyfun Llangefni	Ynys Môn	Uwchradd	X							
Coleg Meirion-Dwyfor	Gwynedd	Coleg	X							
Ysgol Botwnnog	Gwynedd	Uwchradd			X	X				
Ysgol Brynrefail	Gwynedd	Uwchradd	X							
Ysgol Godre'r Berwyn	Gwynedd	Uwchradd			X	X				
Ysgol Tryfan	Gwynedd	Uwchradd	X			X				
Ysgol Tywyn	Gwynedd	Uwchradd			X	X				
Ysgol Glan y Môr	Gwynedd	Uwchradd			X	X				
Ysgol John Bright	Conwy	Uwchradd	X		X					
Ysgol Eirias	Conwy	Uwchradd	X							
Ysgol Dyffryn Conwy	Conwy	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	Sir Ddinbych	Uwchradd	X			X				
Ysgol Brynhyfryd	Sir Ddinbych	Uwchradd	X	X	X	X				
Ysgol Uwchradd Dinbych	Sir Ddinbych	Uwchradd	X							
Coleg Cambria	Sir y Fflint	Coleg	X					X		
Ysgol Richard Gwyn Sant	Sir y Fflint	Uwchradd	X	X						
Ysgol Alun	Wrecsam	Uwchradd	X					X		
Ysgol Uwchradd Castell Alun	Wrecsam	Uwchradd	X							
Ysgol Clywedog	Wrecsam	Uwchradd			X					
Ysgol Morgan Llwyd	Wrecsam	Uwchradd				X				
Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St Joseph	Wrecsam	Uwchradd			X					
Ysgol Uwchradd Aberhonddu	Powys	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd Gwernyfed	Powys	Uwchradd	X	X				X		
Ysgol Llanfyllin	Powys	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd y Drenewydd	Powys	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd y Trallwng	Powys	Uwchradd			X					
Ysgol Calon Cymru	Powys	Uwchradd	X		X	X		X		
Ysgol Bro Hyddgen	Powys	Uwchradd	X					X		
Ysgol Uwchradd Aberteifi	Ceredigion	Uwchradd	X							
Ysgol Bro Pedr	Ceredigion	Uwchradd	X	X		X		X		
Ysgol Penglais	Ceredigion	Uwchradd	X		X					
Ysgol Gyfun Penweddig	Ceredigion	Uwchradd	X		X	X				
Coleg Sir Benfro	Sir Benfro	Coleg	X							
Ysgol Penrhyn Dewi (Dewi Sant yn flaenorol)	Sir Benfro	Uwchradd			X					
Ysgol Greenhill	Sir Benfro	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd GRh Hwlfordd	Sir Benfro	Uwchradd	X							
Ysgol y Preseli	Sir Benfro	Uwchradd	X		X	X				
Ysgol Dyffryn Aman	Sir Gâr	Uwchradd	X		X					
Ysgol Gyfun Emlyn	Sir Gâr	Uwchradd						X		
Ysgol Bryngwyn	Sir Gâr	Uwchradd			X					
Ysgol Coedcae	Sir Gâr	Uwchradd			X					
Ysgol Gyfun y Strade	Sir Gâr	Uwchradd	X		X	X		X		
Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth	Sir Gâr	Uwchradd	X		X					
Ysgol St John Lloyd RC	Sir Gâr	Uwchradd			X					
Ysgol Maes y Gwendraeth	Sir Gâr	Uwchradd	X		X	X		X		
Ysgol Bro Dinefwr	Sir Gâr	Uwchradd	X							
Ysgol Bro Myrddin	Sir Gâr	Uwchradd	X			X				
Coleg Gŵyr	Abertawe	Coleg	X	X						
Ysgol Gyfun Gŵyr	Abertawe	Uwchradd	X			X		X		
Ysgol Bryn Tawe	Abertawe	Uwchradd	X							
Ysgol yr Esgob Gore	Abertawe	Uwchradd	X	X				X		

Enw'r Ysgol	Awdurdod Lleol	Sector	SiHL	WE	LSC	HGB	MA	WAMMS	MediCan	MC
Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan	Abertawe	Uwchradd	X		X					
Ysgol Olchfa	Abertawe	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd Morrison	Abertawe	Uwchradd						X		
Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur	Castell-nedd Port Talbot	Uwchradd	X		X					
Coleg Chweched Dosbarth Penybont	Pen-y-bont ar Ogwr	Coleg	X							
Ysgol Brynteg	Pen-y-bont ar Ogwr	Uwchradd	X		X			X		
Ysgol Gyfun Cynffig	Pen-y-bont ar Ogwr	Uwchradd						X		
Ysgol Uwchradd Pencoed	Pen-y-bont ar Ogwr	Uwchradd	X							
Ysgol Gyfun Porthcawl	Pen-y-bont ar Ogwr	Uwchradd	X		X			X		
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	Pen-y-bont ar Ogwr	Uwchradd				X		X		
Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath	Pen-y-bont ar Ogwr	Uwchradd	X							
Ysgol Bro Morgannwg	Bro Morgannwg	Uwchradd	X			X		X		
Ysgol Gyfun y Bont-faen	Bro Morgannwg	Uwchradd	X							X
Ysgol Uwchradd Pencoedtre	Bro Morgannwg	Uwchradd			X					
Ysgol Gyfun St Cyres	Bro Morgannwg	Uwchradd	X		X					
Ysgol Richard Gwyn Sant	Bro Morgannwg	Uwchradd	X		X					
Ysgol Gymunedol Aberdâr	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd						X		
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X					X		
Cardinal Newman	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X					X		
Ysgol Gyfun Aberpennar	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X							
Ysgol Gyfun Garth Olwg	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X			X		X		
Ysgol Gymunedol Tonyrefail	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X					X		
Ysgol Gyfun Treorci	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X	X				X		
Ysgol Gymunedol Porth	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd			X					
Ysgol Uwchradd Pontypridd	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd			X					
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Ioan Fedyddiwr	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd						X		
Ysgol Gyfun y Pant	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X					X		
Ysgol Gyfun Rhydywaun	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X			X				
Ysgol Llanhari	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd	X			X				
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda	Rhondda Cynon Taf	Uwchradd				X				
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa	Merthyr Tudful	Uwchradd			X					
Coleg Merthyr Tudful	Merthyr Tudful	Coleg	X					X		
Coleg y Cymoedd	Caerffili	Coleg	X							
Ysgol Trecelyn	Caerffili	Uwchradd			X					
Ysgol St Cenydd	Caerffili	Uwchradd						X		
Ysgol Martin Sant	Caerffili	Uwchradd	X		X			X		
Ysgol Uwchradd Islwyn	Caerffili	Uwchradd			X					
Ysgol Gyfun Idris Davies	Caerffili	Uwchradd			X			X		
Ysgol Gyfun Gorllewin Trefynwy	Torfaen	Uwchradd						X		
Ysgol St Alban	Torfaen	Uwchradd			X					
Ysgol Gyfun Trefynwy	Sir Fynwy	Uwchradd	X		X			X		
Coleg Gwent	Casnewydd	Coleg	X					X		
Ysgol Bassaleg	Casnewydd	Uwchradd	X	X						
Ysgol Gyfun Caerllion	Casnewydd	Uwchradd	X	X	X			X		
Ysgol John Frost	Casnewydd	Uwchradd	X					X		
Ysgol Uwchradd Llanwern	Casnewydd	Uwchradd	X	X						
Ysgol Uwchradd Llysweri	Casnewydd	Uwchradd						X		
Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant	Casnewydd	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd St Julian	Casnewydd	Uwchradd						X		
Coleg Catholig Dewi Sant	Caerdydd	Coleg	X	X				X	X	
Coleg Caerdydd a'r Fro	Caerdydd	Coleg	X	X						
Ysgol Uwchradd Esgob Llandâf	Caerdydd	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd Cantonian	Caerdydd	Uwchradd						X		
Ysgol Uwchradd Caerdydd	Caerdydd	Uwchradd	X	X	X			X	X	

Enw'r Ysgol	Awdurdod Lleol	Sector	SiHL	WE	LSC	HGB	MA	WAMMS	MediCan	MC
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Caerdydd	Uwchradd			X					
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Caerdydd	Uwchradd	X						X	
Ysgol Uwchradd Cathays	Caerdydd	Uwchradd			X					
Corpus Christi	Caerdydd	Uwchradd			X					
Ysgol Uwchradd Llanisien	Caerdydd	Uwchradd		X					X	
Ysgol Gyfun Radur	Caerdydd	Uwchradd			X			X		
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Caerdydd	Uwchradd	X			X		X		
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Caerdydd	Uwchradd	X							
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru St Teilo	Caerdydd	Uwchradd	X	X	X					
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	Caerdydd	Uwchradd	X	X	X			X	X	
Ysgol Gynradd Tredegarville	Caerdydd	Cynradd					X			

Ysgolion/Colegau Annibynnol

Enw'r Ysgol	Awdurdod Lleol	Sector	SiHL	WE	LSC	HGB	MA	WAMMS	MediCan	MC
Ysgol y Gadeirlan, Llandaf	Caerdydd	Uwchradd	X	X	X					
Ysgol Westbourne	Bro Morgannwg	Uwchradd	X							
Ysgol Howell's, Llandaf	Caerdydd	Uwchradd	X	X						
Coleg St John	Caerdydd	Uwchradd	X	X	X					
Ysgol St Michael	Llanelli	Uwchradd	X	X						
Ysgol Ferched Trefynwy (Haberdashers)	Sir Fynwy	Uwchradd	X							
Ysgol Fechgyn Trefynwy (Haberdashers)	Sir Fynwy	Uwchradd	X							
Academi Caerdydd	Caerdydd	Uwchradd	X	X						
Coleg Chweched Dosbarth Caerdydd	Caerdydd	Uwchradd	X	X						
Ysgol Kings Monkton	Caerdydd	Uwchradd	X							
Coleg Unedig y Byd, Coleg yr Iwerydd	Bro Morgannwg	Coleg	X							

Schools and Colleges outside Wales

Enw'r Ysgol	Awdurdod Lleol	Sector	SiHL	WE	LSC	HGB	MA	WAMMS	MediCan	MC
Barton Peveril Sixth Form College	Eastleigh	Coleg	X							
Bishop Vesey's Grammar School	Sutton Coldfield	Annibynnol	X							
Clifton High School	Bryste	Annibynnol	X							
Fortismere School	Llundain	Uwchradd		X						
Goffs Academy	Cheshunt	Uwchradd		X						
Haberdashers' Knights Academy	Bromley	Uwchradd		X						
Hills Road Sixth Form College	Caergrawnt	Coleg	X	X						
King Edward VI School (Merched)	Birmingham	Uwchradd		X						
King Edward VI School (Bechgyn)	Stratford upon Avon	Uwchradd	X							
Kingsthorpe College	Northampton	Uwchradd	X							
Lumen Christi College	Derry	Uwchradd		X						
Lutterworth College	Lutterworth	Uwchradd	X							
Mulberry School for Girls	Llundain	Uwchradd	X							
Oaklands Catholic School	Waterlooville	Uwchradd		X						
Queen Mary's College	Basingstoke	Coleg	X							
Ruislip High School	Llundain	Uwchradd	X							
Scarisbrick Hall School	Ormskirk	Annibynnol	X							
Sidmouth College	Sidmouth	Uwchradd	X							
Sir George Monoux College	Llundain	Coleg	X	X						
St Bede's Catholic College	Bryste	Uwchradd	X	X						
St Dominic's Sixth Form College	Harrow on the Hill	Coleg	X							
Clarendon Academy	Trowbridge	Uwchradd	X							
Thornhill College	Derry	Uwchradd		X						
Truro and Penwith College	Truro	Coleg	X							
Wirral Grammar School for Boys	Wirral	Uwchradd	X							

Allwedd:

SiHL	Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd yn Fyw Ar-lein
WE	Profiad Gwaith (ar-lein)
LSC	Life Sciences Challenge (Her Gwyddorau Bywyd)
HGB	Her Gwyddorau Bywyd
MA	Llysgenhadon MEDIC
WAMMS	Cynllun Mentora Mynediad Ehangach i Feddygaeth
MediCan	Cymdeithas myfyrwyr MediCan
MC	Cyflwyniad yr Athro Marcus Coffey

n= 155

10	Coleg
108	Uwchradd – Cymru
25	Uwchradd – y tu allan i Gymru
1	Cynradd
11	Annibynnol

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)
 (% y disgyblion yn 50% yr ardaloedd mwyaf difreintiedig)

WIMD (80-100%)
WIMD (60-80%)

Oherwydd COVID-19, cynhaliwyd yr holl weithgareddau ar-lein